# Cotio arwynebau drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu aer

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chydosod a gosod cyfarpar chwistrellu aer (systemau cyfaint mawr gwasgedd isel) a'i ddefnyddio i gotio arwynebau, glanhau a chynnal a chadw cyfarpar chwistrellu aer, diogelu'r man gweithio, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol a dewis, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar cysylltiedig.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes Galwedigaethau Gorffen Addurniadol a Phaentio Diwydiannol a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

*Meini Prawf Perfformiad 1
*
**Dehongli gwybodaeth

**K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn
*
*Meini Prawf Perfformiad 2*
*
**Arferion gwaith diogel

**K4 faint o **wybodaeth** y mae'n rhaid i weithwyr ei deall i gydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** berthnasol a chyfredol **a chanllawiau swyddogol** a sut i'w chymhwyso

K5 pa fathau o **ddiffoddwyr tân** sydd ar gael a sut a phryd i'w defnyddio

K6 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K7 beth yw **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K8 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K9 pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

K10 sut i weithredu arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn cydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** gyfredol **a chanllawiau swyddogol

---

Meini Prawf Perfformiad 3

*
*Dewis adnoddau

**K11 beth yw nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yr **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K12 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i adrodd am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â nhw

K13 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

K14 pa **beryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut i ddelio â'r rhain

**Meini Prawf Perfformiad 4**

**Lleihau'r risg o ddifrod**

K15 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu

K16 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hyn

*Meini Prawf Perfformiad 5*
*
**Bodloni gofynion y contract

**K17 sut i ymgymryd â **dulliau gweithio** i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am **broblemau**

K18 sut i **gynnal a chadw** offer a chyfarpar

**Meini Prawf Perfformiad 6

---

Amser a neilltuwyd
**
K19 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

## Cwmpas/Ystod

**Meini Prawf Perfformiad 1

**1 dehongli lluniadau, gofynion, rheoliadau cyfredol, amserlenni, asesiadau risg, datganiadau dull a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

**Meini Prawf Perfformiad 2

**2 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y dilynol

2.1 dulliau gweithio

2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel

2.3 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel

2.4 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel

2.5 risgiau penodol i iechyd

**Meini Prawf Perfformiad 3

**3 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

3.1 deunyddiau

3.2 offer a chyfarpar

**Meini Prawf Perfformiad 4

**4 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

5 cynnal man gweithio clir a thaclus

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

**Meini Prawf Perfformiad 5

**7 dangos sgiliau paratoi, llwytho, diogelu, cyfathrebu, mesur, cydosod, lleoli, sicrhau a glanhau

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, cyfarpar chwistrellu aer a chyfarpar ategol

9 gosod ac addasu cyfarpar chwistrellu aer drwy wneud y canlynol i sicrhau'r gorffeniad a nodir yn y cyfarwyddiadau gweithio a roddir

9.1 paratoi deunyddiau cotio

9.2 llwytho'r system

9.3 monitro a chynnal y cyflenwad

10 cotio'r arwynebau dilynol â deunyddiau cotio a gludir gan ddŵr a/neu ddeunyddiau cotio a gludir gan hydoddydd drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu aer yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

10.1 waliau llydan

10.2 gwaith llinellog a strwythurol

11 mesur trwch cotiau gwlyb (fel y nodir)

12 diffodd y cyfarpar chwistrellu a'i lanhau

13 gweithredu gweithdrefnau diffodd

13.1 diffodd y cyfarpar chwistrellu am gyfnod dros dro

13.2 diffodd, glanhau a chynnal a chadw'r cyfarpar chwistrellu ar ôl gwneud y gwaith

**Meini Prawf Perfformiad 6

**14 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

*Gwaredu gwastraff*
*

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

*Argyfyngau*
*

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol

2.1 tanau, gollyngiadau ac anafiadau

2.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol (gan gynnwys anafiadau chwistrellu aer a hylif)

*Diffoddwyr tân*
*

3 dŵr, CO2, ewyn a phowdr
*

*Peryglon*
*

4 y rhai hynny a nodir drwy asesiadau risg, mewn datganiadau dull, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

**5 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau o gyfarpar a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol

5.1 mesurau diogelu ar y cyd

5.2 cyfarpar diogelu personol

5.3 cyfarpar diogelu anadlol

5.4 system awyru a gwacáu leol

**Gwybodaeth

**6 lluniadau, gofynion, deddfwriaeth gyfredol, amserlenni, asesiadau risg, datganiadau dull, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, canllawiau swyddogol a rheoliadau cyfredol sy'n ymwneud ag adeiladau ac yn gysylltiedig â gofynion galwedigaethol

**Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

**7 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd, pobl a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

**Cynnal a chadw

**8 gofal y gweithiwr am y cyfarpar chwistrellu, offer llaw cysylltiedig, offer pŵer a chyfarpar ategol

**Dulliau gweithio

**9 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull, y maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i

9.1 cadarnhau gofynion mynediad

9.2 sicrhau bod arwynebau wedi'u haddurno neu eu paratoi'n flaenorol yn addas

9.3 diogelu'r man gweithio drwy ddefnyddio gorchuddion a deunyddiau masgio a symud eitemau

9.4 dewis a chydosod cydrannau'r cyfarpar chwistrellu

9.5 paratoi deunyddiau cotio a chotio arwynebau â nhw (systemau un pecyn a dau becyn)

9.6 llwytho, gweithredu, cynnal (tra bydd yn cael ei ddefnyddio) a monitro'r cyfarpar chwistrellu

9.7 cadarnhau gofynion newid aer mewn mannau cyfyng

9.8 cydosod, gosod, gweithredu a diffodd y cyfarpar chwistrellu

9.9 defnyddio'r gwn chwistrellu'n gywir wrth gotio waliau llydan, onglau, gwaith llinellog a nodweddion strwythurol cymhleth

9.10 trefnu bod gweithwyr a'r cyhoedd wedi'u diogelu rhag gweithrediadau chwistrellu

9.11 nodi a rhoi gwybod am broblemau â'r cyfarpar chwistrellu

9.12 nodi a datrys problemau wrth ddefnyddio'r cyfarpar chwistrellu

9.13 defnyddio mesurydd i fesur trwch cotiau gwlyb

9.14 diffodd, glanhau, cynnal a chadw a storio cyfarpar

9.15 nodi sut mae amodau atmosfferig yn effeithio ar ddeunyddiau cotio a'u defnydd

9.16 nodi oes waith deunyddiau a baratowyd

9.17 rhoi gwybodaeth ar gyfer modelu gwybodaeth am adeiladu

9.18 nodi, penderfynu a rhoi gwybod pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol

9.19 nodi a dilyn cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr

9.20 gweithio o gwmpas peiriannau ac yn agos iawn atynt

9.21 cyfarwyddo ac arwain peiriannau wrth iddynt symud a chael eu gweithredu

9.22 gweithio ar uchder

9.23 archwilio a defnyddio cyfarpar mynediad

9.24 defnyddio offer llaw a chyfarpar ategol

10 gwaith tîm a chyfathrebu

11 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â chotio arwynebau drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu aer

**Problemau

**12 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

12.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa

12.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

**Rhaglen

**13 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

14 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

**Diogelu gwaith

*15 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill, y cyhoedd a thywydd garw*
*
Adnoddau
**
16 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol a/neu

arbenigol o

16.1 deunyddiau cotio a gludir gan ddŵr a deunyddiau cotio a gludir gan hydoddydd

16.2 deunyddiau masgio (tâp masgio, papur masgio a gorchuddion)

16.3 deunyddiau cotio dau becyn (seiliau, actifadyddion a hydoddyddion)

16.4 gorchuddion diogelu

16.5 cyfarpar mynediad

16.6 offer llaw, mesuryddion trwch cotiau gwlyb, cyfarpar chwistrellu aer a chyfarpar ategol

17 dulliau o gyfrifo faint o ddeunyddiau sydd eu hangen, gan gynnwys faint o ddeunyddiau a fydd yn cael eu gwastraffu, mewn cysylltiad â'r dull a'r weithdrefn ar gyfer cotio arwynebau drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu aer

18 cadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n bodloni'r gofynion

**Gweithdrefnau diogelwch*

*

19 safle, gweithle, cwmni, gweithiwr a cherbydau

Cotio arwynebau drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu aer

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Construction Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ConstructionSkills [SgiliauAdeiladu] |
| **RCU gwreiddiol** | VR340 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Paentio ac Addurno |
| **Cyfres/Set** | Galwedigaethau Gorffen Addurnol a Pheintio Diwydiannol (Adeiladu) |
| **Geiriau Allweddol** | Gwn chwistrellu; Chwistrellu; A gludir gan ddŵr; A gludir gan hydoddydd; Paentio; Gwlyb a sych; Trwch cotiau; Waliau llydan; Cyfaint mawr gwasgedd isel |